

Cyngor Cynggori Cymru ar Arloesi

29 Mawrth 2018, Hwb Gwyddorau Bywyd, Caerdydd
Cofnodion

Yn bresennol: Kellie Beirne (KB) (cadeirydd)
Robin Williams (RW)
David Wilkes (DW)
Steve Smith (SS)
Rhys Thomas (RT)

Ymddiheuriadau: Jessica Jones (JJ)
Helen Swygart (HS)
David Notley (DN)
Sue Bale (SB)
Andy Middleton (AM)
Kirsten Bound (KBo)

Yr Ysgrifenyddiaeth: Alastair Davies (AD)
Philippa Costello (PC)

Siaradwyr Gwadd: Mike Bacigalupo (MB) (Llywodraeth Cymru)
Jon Day (JD) (Cyngor Caerdydd)
Chris Meadows (CM) (IQE)

Eitem ar yr Agenda		Cam gweithredu
1	<p>Croeso</p> <p>Croesawodd KB aelodau'r Cyngor i'r 14eg cyfarfod Cyngor Cynggori Cymru ar Arloesi (IACW).</p> <p>Trafodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Rhoddodd AD yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar Adolygiad Reid sydd wedi cael ei roi i'r Gweinidogion. Pwysleisiodd AD y 3 argymhelliad sydd wedi'u nodi yn yr Adolygiad sy'n cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none">1) Swyddfa uchel ei phroffil yn Llundain (ail-lunio pwrpas swyddfa bresennol Llywodraeth Cymru yn Llundain) gan roi pwyslais ar arloesi ac ymchwil;2) Cynnal a chadw, a chynyddu'r cyllid ar gyfer ymchwil cysylltiedig ag ansawdd a roddir i brifysgolion;3) Creu 3 hwb arloesi a arweinir gan y diwydiant; a chreu cronfa fuddsoddi Dewi Sant. <p>Nid yw Adolygiad Reid wedi'i gyhoeddi eto a bwriedir ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo ym mis Mai.</p> <p>Bydd AD yn gwahodd Peter Halligan, Prif Gyngorydd Gwyddonol newydd Cymru i gyfarfod nesaf IACW ym mis Mehefin.</p> <p>Bydd AD yn gwahodd David Rosser i gyfarfod yn y dyfodol i ddeall ei rôl newydd yn well fel Prif Swyddog Rhanbarthol y De-ddwyrain.</p>	<p>AD</p> <p>AD</p>

	<p>Cytunwyd ar y cofnodion ac fe'u cymeradwywyd.</p> <p>Gofynnwyd i'r aelodau a oedd yn bresennol nodi unrhyw achos uniongyrchol neu anuniongyrchol o wrthdaro buddiannau o ran yr eitemau ar yr agenda. Ni chofnodwyd unrhyw fuddiannau newydd.</p>	
<p>2</p>	<p>Prifddinas Arloesi Ewrop</p> <p>Ymunodd Mike Bacigalupo, Uwch-reolwr Datblygu Arloesedd Llywodraeth Cymru a Jonathan Day, Rheolwr Datblygu Busnesau Cyngor Caerdydd â'r Cyngor i drafod y posibilrwydd o gynnig Caerdydd yn y gystadleuaeth nesaf ar gyfer enwi Prifddinas Arloesi Ewrop.</p> <p>Dyma gystadleuaeth H2020 a rhoddir gwobr ariannol flynyddol o €1m i'r ddinas yn Ewrop sy'n gallu dangos orau ei gallu i wella bywydau ei dinasyddion drwy ddulliau arloesol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 21 Mehefin 2018.</p> <p>Trafodwyd nodweddion unigryw Caerdydd, pwy fyddai'r prif gynrychiolydd, a pha adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno cais o'r fath. Cytunwyd bod gan Gaerdydd a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd lawer o rinweddau y gellid eu cynnwys yn y cynnig, er enghraifft, trawsnewidiad y ddinas dros y 4-5 mlynedd diwethaf; Caerdydd yw dinas ieuengaf Ewrop; Alacrity; yr Academi Feddalwedd; Creu Sbarc; Lled-ddargludyddion Cyfansawdd; y Metro; a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Cytunwyd y bydd is-grŵp sy'n cynnwys KB, JD, RT, SS, MB, KBo, a Jon Wood o IUK yn cwrdd i drafod y cynnig ac i fwrw ymlaen ag ef. Mae'r cyfarfod wedi'i drefnu am 4pm ddydd Gwener 6 Ebrill.</p>	
<p>3</p>	<p>Diweddariad ar waith IACW</p> <p>Rhoddodd AD yr wybodaeth ddiweddaraf ar Ffyniant i Bawb, sef Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Nod y Meysydd Gweithredu yw helpu busnesau sydd eisiau cymorth ariannol gan y Llywodraeth drwy eu helpu i oresgyn heriau'r dyfodol. Bydd disgwyl i fusnesau gyfrannu at o leiaf un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datgarboneiddio; • Arloesi, Entrepreneuriaeth a Phencadlys; • Allforio a Masnachu; • Swyddi o Ansawdd Uchel, Datblygu Sgiliau a Gwaith Teg; a • Ymchwil a datblygu, Awtomeiddio a Digideiddio. <p>Siaradodd AD am y Contract Economaidd newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sydd am i'r Llywodraeth fuddsoddi ynddynt ddangos y canlynol i gyd fan lleiaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y potensial i dyfu; • Gwaith Teg; • Hyrwyddo sgiliau a dysgu er lles iechyd yn y gweithle; a • Gweithio at leihau eu hól troed carbon. 	

	<p>Cyfeiriodd AD hefyd at Gronfa Dyfodol yr Economi, sef y gronfa gyffredinol a fydd yn cynnwys yr holl gynlluniau a chyllid ar gyfer datblygu'r economi.</p> <p>Mae'r Llywodraeth yn dal i fod wrthi yn trafod manylion yr uchod.</p> <p>Nododd AD fod adolygiad y Corff Cyngori Allanol yn dal i fynd rhagddo, ond bod 9 panel y sectorau wedi gwahanu bellach.</p> <p>Holodd KB ynghylch y posibilrwydd o adolygu IACW i ail-edrych ar ei ddiben a'i addasrwydd.</p> <p>Cytunwyd trefnu cyfarfod rhwng IACW a Mick McGuire, Marcella Maxwell ac Emma Watkins. PC i drefnu hyn.</p>	<p>PC</p>
<p>4</p>	<p>Diweddariad ar Brospectws Arloesi'r Fargen Ddinesig</p> <p>Rhoddodd KB yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor ar y prospectws arloesi. Erbyn hyn, mae'r 10 awdurdod lleol i gyd wedi llofnodi'r cynllun busnes ar gyfer cytundeb cydweithio Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.</p> <p>Mae un prosiect wedi'i gymeradwyo hyd yn hyn ac mae bellach yn fyw - CSC Foundry. Ail brosiect a fydd yn cael ei weithredu cyn hir fydd prosiect Metro Canolog Caerdydd. Bydd yn cael ei fwydo gan y Metro.</p> <p>Mae dau fframwaith wedi'u cymeradwyo o dan y Fargen Ddinesig hyd yn hyn, 1) y Gronfa Buddsoddi mewn Tai - sy'n hoelio sylw ar gyflwyno tai gwell yn y rhanbarth i ategu'r swyddi a fydd yn cael eu creu; 2) Sgiliau a fydd yn canolbwyntio ar ddatblygu rhai penodol.</p> <p>Mae tri fforwm wedi'u sefydlu i lywio'r Fargen Ddinesig:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Y Partneriaeth Twf Economaidd - i graffu ar y Fargen Ddinesig; 2) Y Sefydliad Busnesau Rhanbarthol - corff sy'n cynrychioli busnesau ar draws y rhanbarth i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed; a 3) Yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol - mae'n gweithio ar y Metro. <p>O fewn y prospectws arloesi, mae 3 fframwaith wedi'u cymeradwyo:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Cronfeydd Cyfalaf Menter ar gyfer Technoleg - £50 miliwn a fydd yn cyd-fynd â buddsoddiad Banc Buddsoddi Ewrop neu Fanc Buddsoddi Prydain; 2) Profi Gwasanaethu'r Cyhoedd - dull o ddatrys problemau cymdeithasol mawr. 3) Academi Seiber - hybu'r potensial sy'n bodoli o fewn y rhanbarth a datblygu'r sylfaen sgiliau sydd ei hangen ar y diwydiant i dyfu. 	

	Edrych ar amrywiaeth wahanol o fanteision a chymhellion cyllidol ee credydau treth ymchwil a datblygu a sut i'w ehangu.	
5	<p>Diweddariad ar glwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd CS Connected</p> <p>Rhoddodd Chris Meadows o IQE yr wybodaeth ddiweddaraf ar CS Connected sef yr enw brand ar y clwstwr cyntaf o Led-ddargludyddion Cyfansawdd. Dyma hefyd y brand ar y cyd ar gyfer y nifer cynyddol o weithgareddau sy'n ymwneud â lled-ddargludyddion cyfansawdd o fewn y clwstwr technoleg. Mae'n cynrychioli partneriaid academaidd a busnesau sy'n gwneud gwaith ymchwil, datblygu, arloesi a gweithgynhyrchu o ran cynhyrchion sy'n ymwneud â lled-ddargludydd cyfansawdd.</p> <p>Siaradodd CM am y posibilrwydd o Academi CS a fydd yn darparu rôl weinyddol a chynghorol, a hyfforddiant i ddiffinio, cydgysylltu a darparu gweithgareddau dysgu a sgiliau ledled y rhanbarth a fydd yn amrywio o sgiliau allweddol i gymwysterau NVQ lefelau 1 i 9. Mae gwaith wedi dechrau eisoes i ddatblygu perthnasau o fewn ysgolion, a cyrff addysg bellach ac addysg uwch ledled y De-ddwyrain.</p>	
6	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Nododd DW raglen UKRI newydd a fydd yn cael ei chyhoeddi ar 3 Ebrill - Cynllun Cymrodoriaeth Arweinwyr y Dyfodol ar gyfer busnesau a'r byd academaidd. Mae manylion y cynllun presennol i'w gweld yn:</p> <p>https://www.ukri.org/funding/funding-opportunities/future-leaders-fellowships/</p> <p>Nododd DW hefyd fod prif dudalen bellach i'w gweld ar gyfer cyfleoedd ariannu UKRI https://www.ukri.org/funding/funding-opportunities/ sy'n gasgliad o holl alwadau UKRI.</p> <p>Bwriedir cynnal cyfarfod nesaf IACW ar 8 Mehefin 2018 - lleoliad i'w gadarnhau.</p>	